**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**PAC(3)-04-11 (p2) : 9 Mawrth 2011**

**Y diweddaraf ar Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar Wasanaethau Therapi Ocsigen yn y Cartref.**

**Mae'r papur hwn gan Lywodraeth y Cynulliad yn nodi'r cynnydd a wnaed a'r sefyllfa gyfredol ym mis Mawrth 2011 o ran yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) mewn perthynas â'i adroddiad ar y Gwasanaethau Therapi Ocsigen yn y Cartref a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2009.**

## 1 Argymhelliad

Rydym yn cadarnhau argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, sydd i gyd yn ymwneud â materion sy'n peri pryder i ni. Gofynnwn i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i bob un o'r pedwar argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn.

### Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011

Mae Atodiad 1 sy'n amgaeedig yn nodi'r cynnydd a wnaed a'r sefyllfa gyfredol o ran pob un o argymhellion adroddiad SAC a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

## 2 Argymhelliad

Sylwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd costau'r gwasanaethau ocsigen yn y cartref yn gostwng wrth i nifer yr asesiadau clinigol gynyddu. Disgwyliwn i'r GIG lwyddo i sicrhau'r arbedion ariannol hyn ac rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor hwn ar ddiwedd y flwyddyn hon ac ar ddiwedd y ddwy flynedd sy'n weddill o dan y cytundeb, i ddangos bod yr arbedion hyn yn cael eu gwneud.

### Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011

Ym mis Chwefror 2010 a Chwefror 2011, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y PCC, gan nodi lefel yr arbedion sy'n cael eu gwneud ar y gwasanaeth ocsigen yn y cartref.

## 3 Argymhelliad

Roedd y broses o gyflwyno'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau therapi ocsigen yn y cartref yng Nghymru yn un anodd a chostus. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth y Cynulliad a GIG Cymru yn dysgu gwersi o'r profiad hwn. Pwysleisir rhai o'r gwersi yn ein hadroddiad. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2009, yn gosod allan y gwersi a ddysgwyd o'r broses o gyflwyno'r contract ar gyfer gwasanaethau therapi ocsigen yn y cartref; a sut y mae'r gwersi hyn yn cael eu cymhwyso i'r newidiadau allweddol eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau i gleifion.

**Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011**

Ar 1 Gorffennaf 2009 ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y PCC yn nodi'n glir y gwersi a ddysgwyd o'r profiad o gyflwyno'r contract cyfredol. Ym mis Medi 2009 ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad ynghylch sut roedd y gwersi hynny yn cael eu cymhwyso ar draws Llywodraeth y Cynulliad yn ehangach.

**Atodiad 1**

**Argymhelliad 1 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus:**

**"Rydym yn cadarnhau argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, sydd i gyd yn ymwneud â materion sy'n peri pryder i ni. Gofynnwn i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i bob un o'r pedwar argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn"**

**Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Argymhellion y Gwasanaeth Therapi Ocsigen yn y Cartref** (cytunwyd ar bob argymhelliad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2009)

**1a Argymhelliad**

O ran y cyfryw gontractau sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadw'r opsiwn - a, lle y bo'n briodol, arfer yr opsiwn hwnnw - i amrywio'r ffordd y caiff y trefniadau cytundebol newydd eu gweithredu yng Nghymru er mwyn lleddfu'r risgiau cysylltiedig.

**Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011**

Mae'r contract ocsigen yn y cartref ôl-2011 yn seiliedig ar fodel Fframwaith Strategol sy'n gweithredu fel y contract trosfwaol ar gyfer holl Ranbarthau Cymru a Lloegr, ac mae'n cynnwys nifer o gyflenwyr.

Dyfarnwyd y Contract Fframwaith Cenedlaethol gan yr Adran Iechyd ar 3 Rhagfyr 2010 gyda phum cyflenwr yn ymrwymo i'r Cytundeb Fframwaith. Roedd arweinwyr o bob Rhanbarth yng Nghymru a Lloegr yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a oedd dan arweiniad yr Adran Iechyd, gan sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r fanyleb a'r contract yn ystyried anghenion lleol ym mhob un o'r Rhanbarthau. Yn awr, bydd pob Rhanbarth yn cynnal ymarfer caffael ar gyfer contractau lleol yn ôl y gofyn, a gynhelir fesul haen. Mae Cymru wedi'i chynnwys yn haen 4, a bydd y broses gaffael yn dechrau'n fuan gyda gwahoddiad i dendro yn cael ei estyn ym mis Hydref 2011. Mae dadansoddiad o'r risgiau wedi'i gynnal i sicrhau bod y trefniadau cytundebol ar gyfer Cymru yn cael eu hystyried a'u teilwra'n briodol yn ôl ein hanghenion a'n risgiau ni.

**1b Argymhelliad**

O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ganiatáu amser ychwanegol rhag ofn na fydd y gwaith paratoadol yn mynd rhagddo fel y disgwylir; yn enwedig pan nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen i weithredu'r trefniadau newydd ar gael yn hawdd.

**Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011**

Daeth y contract cyfredol ar ocsigen yn y cartref i ben ar 31 Ionawr 2011 ac mae estyniad wedi'i negodi i ganiatáu i broses gaffael leol gael ei chynnal. Bydd y broses gaffael i Gymru yn dechrau o gwmpas Gorffennaf 2011 a bydd contract newydd yn ei le erbyn 27 Mehefin 2012. Ar hyn o bryd mae cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys manylion cyfnod pontio a gweithredu chwe mis.

## 1c Argymhelliad

O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad oruchwylio effeithiolrwydd y modd y mae cyrff iechyd yn cyfathrebu â chleifion ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Dylai hefyd oruchwylio'r broses gyfathrebu effeithiol â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio.

**Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011**

Fel rhan o'r gwaith o reoli'r elfen gaffael hon, mae strategaeth gyfathrebu glir yn cael ei datblygu a fydd yn golygu bod pob rhanddeiliad allweddol yng Nghymru yn cymryd rhan mewn ffordd briodol. Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r GIG yng Nghymru eisoes wedi dechrau drwy Grŵp Cyfeirio Therapi Ocsigen Llywodraeth y Cynulliad sy'n cynnwys arweinwyr ym maes ocsigen o bob un o'r 7 BILl.

Mae tîm gwerthuso, i ystyried y cynigion tendr ar gyfer y contract lleol yn ôl y gofyn, hefyd yn cael ei sefydlu. Mae'r Grŵp Cyfeirio ac unigolion eraill sy'n rhanddeiliaid allweddol yn gwahodd enwebiadau ar gyfer aelodau'r tîm gwerthuso, gan ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol i ddod o hyd i gyflenwr newydd ar gyfer Cymru.

## 1d Argymhelliad

Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfeirio BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG at flaenoriaethu datblygiad asesiadau clinigol arbenigol. Dylai hefyd fonitro'n agos y cynnydd a wnaed gan y GIG yng Nghymru wrth ddatblygu'r cyfryw wasanaethau a ph'un a yw'r arian ychwanegol a neilltuwyd i BILlau wedi'i ddefnyddio'n effeithiol.

**Y sefyllfa ym mis Chwefror 2011**

Ym mis Mawrth 2009, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeiryddion y 22 BILl, fel yr oeddent ar y pryd, yn eu cyfarwyddo i roi blaenoriaeth i'r gwaith o sefydlu a gwella'r gwasanaeth asesu ac yn gofyn am iddynt gwblhau holiadur er mwyn canfod sefyllfa ddiweddaraf y gwasanaeth yn eu BILl penodol hwy.

Roedd yr archwiliad o'r gwasanaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod yna gynnydd wedi bod o ran darparu gwasanaethau asesu. Cyfarwyddwyd BILlau wedyn i sicrhau yr eid i'r afael â'r meysydd y tynnwyd sylw atynt yn yr archwiliad hefyd fel meysydd i'w gwella. Roedd yn ofynnol iddynt adrodd yn ôl erbyn 30 Tachwedd 2009 fan bellaf ynghylch y cynnydd a wnaed.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth bob un o'r 7 BILl yn dynodi bod cydnabyddiaeth glir wedi bod, ers i'r archwiliad gael ei gynnal ym mis Mawrth 2009, yn gyffredinol, ar draws y 7 BILl, o'r angen i wella a datblygu'r gwasanaeth asesu cleifion. Ym mis Ebrill 2010, gofynnwyd i BILlau ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer 2010/2011 yn tynnu sylw at feysydd gweithredu penodol ar gyfer gwella'r gwasanaeth, gan gynnwys amserlenni a chanlyniadau y gellid eu mesur.

Cyflwynodd BILlau adroddiad interim am hynt y gwaith a wnaed mewn perthynas â'u Cynlluniau Gweithredu ym mis Tachwedd 2010 ac, erbyn hyn, mae'n ofynnol iddynt adrodd yn ôl yn ffurfiol erbyn 31 Mawrth 2011 ar y cynnydd a wnaed o ran y Cynlluniau Gweithredu hyn.

Yn ôl gwybodaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar oddi wrth y BILlau, mae Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Gwasanaeth Asesu Cleifion Ocsigen yn y Cartref y BILlau yn hyrwyddo arbedion ar draws y Gwasanaeth, gan wneud gwelliannau hefyd i'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y cleifion. Bydd y gwaith o fonitro'r Gwasanaeth yn agos yn parhau.